Early Years Wales

Noddwyd gan

towergate
Insurance Brokers



# Gwobrau Blynyddoedd Cynnar Cymru 2020

### 15 Rhagfyr 2020

### Dan arweiniad Dave Goodger, Prif Weithredwr, Blynyddoedd Cynnar Cymru

Roeddem ni wrth ein bodd fod cymaint ohonoch wedi 'herio'r tywydd' ychydig cyn y Nadolig i ymuno â ni ar gyfer ein dathliad rhithiol o Wobrau Blynyddoedd Cynnar Cymru. Fel y dywedodd Dave, roedd yn wahanol iawn i'r cyntaf, yn wahanol iawn, iawn i fel yr oeddwn wedi dychmygu y byddai'r ail, ond roedden ni eisiau gorffen y flwyddyn ar i fyny a dathlu'r gwaith anhygoel rydych yn ei wneud dros a chyda'r plant yn ein sector.




### Yn ystod y noson cyflwynwyd 15 o wobrau ac rydym yn falch iawn o gyhoeddi'r enillwyr...

1. **Lleoliad y Flwyddyn Blynyddoedd Cynnar Cymru**
Little Inspirations Day Nursery Ltd (GRŴP)

2. **Arloesydd y Flwyddyn Blynyddoedd Cynnar Cymru**
KIN Nature Kindergarten, Trefynwy

3. **Ymarferydd y Flwyddyn Blynyddoedd Cynnar Cymru**
Margaret Powell, Golden Manor Nursery Ltd, Sir Benfro

4. **Gwirfoddolwr y Flwyddyn Blynyddoedd Cynnar Cymru**
Pat Moreton, Canolfan Blant Gibbonsdown, Bro Morgannwg

5. **Dysgwr y Flwyddyn Blynyddoedd Cynnar Cymru**
Sandra Strait, Gofal Dydd Little Tigers, Sir Fynwy









## Gwobrau Cydnabod Arbennig

Mae eleni wedi bod yn anarferol ac yn llawn heriau i bob un ohonom. O ganlyniad roeddwn eisiau cydnabod lleoliadau sydd wedi gorfod ymdopi gyda sefyllfaoedd nad fydden nhw, fel arfer, byth yn eu gweld.

Yn aml y partneriaid sy'n angof mewn gofalu am blant, mae gofal plant wedi bod yn wirioneddol ar y blaen [yn ystod y pandemig]. Mae cymaint o'r gwaith rydych yn ei wneud y tu ôl i'r llenni i alluogi pethau i 'weithio fel arfer' i'ch rhieni a'ch plant. Roeddwn eisiau cydnabod ychydig o leoliadau sydd wedi dod i'n sylw am fynd y milltir ychwanegol.

1. **Rachael's Playhouse, Rhondda Cynon Taff**
Fe'i gwobrwywyd am ei chefnogaeth eithriadol i leoliadau ar draws y rhwydwaith Blynyddoedd Cynnar Cymru yn ystod y pandemig.

2. **Little Friends, Rhondda Cynon Taff**
Fe'i gwobrwywyd am oroesi effeithiau dinistriol llifogydd ar ei adeilad yn gynnar yn 2020. Roedden nhw'n dangos gwytnwch ac ysbryd cymunedol anhygoel wrth oroesi'r heriau oedd yn eu hwynebu.

3. **Meithrinfa Pebbles, Abertawe**
Fe'i gwobrwywyd am ei dull arloesol o ofal plant.

4. **The Learning Tree, Caerdydd**
Cydnabyddiaeth am ofal plant hyblyg yn cael ei arwain gan y rheini.

5. **Talitha Brown, Penmorfa Playmates, Sir Ddinbych**
Cydnabyddiaeth am ei sgiliau rheoli a'i harweinyddiaeth ragorol.

6. **Ymddiriedolwyr Grŵp Chwarae Gresffordd, Ducks and Ducklings, Wrecsam**
Diolch i chi Janet, Jean a Kathryn am eich gwaith gwirfoddol ar ran y lleoliad.

7. **Sally Munro, Grŵp Chwarae Trelogan, Sir y Fflint**
Fe'i gwobrwywyd am ei hymrwymiad i'w swydd a'i lleoliad yn ystod 2020.

8. **Carol Dove, Grŵp Chwarae Penguin, Sir y Fflint**
Mae Carol wedi dangos ymrwymiad anhygoel i'w swydd fel ymddiriedolwr newydd.

## Cyrhaeddiad Neilltuol Ansawdd i Bawb

Categori newydd ar gyfer gwobrau 2020. Mae gwobr cyrhaeddiad neilltuol Ansawdd i Bawb yn cydnabod ymrwymiad i'r heriau a wynebwyd gan leoliadau yn ystod yr amseroedd ansicr hyn, ac i leoliadau sydd wedi dangos ymrwymiad i gyrraedd achrediad Ansawdd i Bawb flwyddyn ar ôl blwyddyn.

1. **Meithrinfa Dydd Rose Garden, Abertawe**

2. **Meithrinfa Myrtle House, Sir Gaerfyrddin**

**"Rydych i gyd yn enillwyr; rydych i gyd yn sêr ac rydych yn anhygoel.**

**Llongyfarchiadau i bob un a wnaeth gyrraedd y rownd derfynol a diolch i bob un a ymgeisiodd ac a gafodd eu henwebu. Fel bob tro, roedd y panel yn gweld fod y safon yn eithriadol o uchel ac roedd y penderfyniadau terfynol yn rhai anodd iawn i'w cymryd.**

**Dros y misoedd a rhifynnau i ddod byddwn yn rhannu mwy o fanylion a hanesion ein henillwyr gyda chi. Cadwch eich llygaid ar agor a chofiwch ymuno â ni yng Ngwobrau Blynyddoedd Cynnar Cymru 2021."**

Dilynwch ni ar Twitter
@EarlyWales

Ymunwch â ni ar LinkedIn
Blynyddoedd Cynnar Cymru

Canfod ni ar Facebook
EarlyYearsWales

Dilynwch ni ar Instagram
earlyyearswales